# BWRDD PENSIWN DYDD LLUN, 22 CHWEFROR 2021

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau:**

Osian Richards - Cadeirydd (Cynrychiolydd Aelodau), Cyng. Aled Evans (Cynrychiolydd Cyflogwr), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Swyddogion**:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**:

Cynghorydd Peredur Jenkins – Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 23ain o Dachwedd 2020 fel rhai cywir

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion

**6. COFRESTR RISG**

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwr Pensiynau y gofrestr risg gyfredol oedd yn amlygu risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y gofrestr

yn ddogfen weithredol, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru mewn ymateb i unrhyw risgiau sylweddol sydd yn debygol o ddatblygu.

Diolchwyd am y wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Risg: Ffactorau allanol na ellid eu Rheoli - angen adolygu / lleihau'r sgôr risg
- Risg: Pwll Buddsoddi Cymru - angen adolygu a lleihau'r sgôr risg o dan y penawdau effaith a thebygolrwydd. Y Pwll Buddsoddi bellach wedi ei sefydlu ac yn weithredol.

Awgrymiadau i fformat y gofrestr:

- ·Lliwio'r matrics – defnyddio RAG?
- Ychwanegu colofn i gynnwys rhifau i'r risgiau fel bod modd cyfeirio atynt yn effeithiol
- Trefnu'r risgiau fesul lefel risg - amlygu materion risg uchel ar ddechrau'r ddogfen fel bod modd rhoi blaenoriaeth iddynt - angen cytuno a'r lefel sgôr uchel - awgrym 20
- Angen adolygu'r ddogfen gan ystyried sut i amlygu risgiau sydd wedi ei goroesi neu nad ydynt bellach yn 'risgiau'. Rhaid, er hynny, sicrhau bod cofnod o'r 'risgiau' hynny

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y defnyddir y gofrestr, nodwyd bod y ddogfen yn un byw sydd ar gael i Aelodau'r Bwrdd, Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ac i'r Swyddogion perthnasol gofnodi a chadw golwg ar y risgiau

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn y wybodaeth
- Aelodau i adolygu'r ddogfen gan gyflwyno cynigion ar addasiadau pellach i'r gofrestr i'r Rheolwr Pensiynau

## 7. Y RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2021/2022 yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Bwrdd ynghyd a materion sydd yn codi yn y maes. Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen yn ddogfen weithredol ac i'w haddasu yn unol â'r gofyn.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, awgrymwyd y sylw canlynol

- Awgrym bod un mater gweinyddol ac un mater buddsoddi yn ymddanogs bob yn ail gyfarfod gyda mater trefn lywodraethol i'w gyflwyno i bob cyfarfod

Mewn ymateb i'r sylw nodwyd y byddai materion buddsoddi yn debygol o gael eu trafod tu allan i'r cyfarfodydd Bwrdd gyda'r Aelodau yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd chwarterol y Paneli Buddsoddi ar y cyd gydag Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau . Gall unrhyw fater buddsoddi arall ei gyflwyno fel y mae'n ymddangos - anodd fyddai rhaglennu hyn ymlaen llaw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amseriad cyhoeddi deddfwriaethau, canllawiau a safonau newydd, nododd y Rheolwr Pensiynau nad oedd unrhyw batrwm i gyhoeddiadau, ond byddai modd eu cyflwyno i'r Bwrdd pan yn briodol.

Ategwyd y byddai cynigion ar gyfer marchnadoedd datblygol yn cael eu cyflwyno Medi 2021 ac egwyddorion actiwari ar gyfer y prisiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Gwanwyn 2022.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith**

## 8. GOFYNION HYFFORDDIANT Y BWRDD PENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn cynnwys canlyniadau Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson o wybodaeth a dealltwriaeth Aelodau'r Bwrdd i weinyddu'r Cynllun Pensiwn yn llwyddiannus. Y prif nod oedd ceisio

mynediad at wybodaeth Aelodau yn y meysydd sydd wedi eu hadnabod gan Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA a Chod Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR).

Amlygywd mai sgor cyfartalog y Bwrdd ar gyfer yr asesiad oedd 66.67%. Derbyniwyd dadansoddiad manwl o'r canlyniadau oedd hefyd yn mesur sgor y Bwrdd yn erbyn cyfataledd cenedlaethol. Adrannau ar farchnadoedd ariannol, rôl y Pwyllgor a deddfwriaeth oedd y meysydd a sgoriodd uchaf i'r Bwrdd gyda pherfformiad cryf ym maes llywodraethu sy'n galonogol o ystyried cyfrifoldeb y Bwrdd.

Ymddengys bod gwybodaeth y Bwrdd yn y meysydd eraill yn dda ar y cyfan, er mai dulliau actiwaraidd a gweinyddu pensiwn fyddai'r meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt i'r dyfodol. Adroddwyd bod gyda Hymans Robertson eisoes wedi awgrymu cynllun hyfforddi i fynd i'r afael a'r meysydd hyn. Ategwyd bod holl aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan yn yr asesiad a Chronfa Gwynedd gyda'r ymgysylltiad uchaf mewn perthynas â chwblhau'r asesiad

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, awgrymwyd y sylwadau canlynol

- Bod yn anodd cymharu canlyniadau oherwydd diffyg pob Cronfa i gymryd rhan yn llawn – ffigyrau Gwynedd yn galonogol ac yn gosod fframwaith ar gyfer meysydd hyfforddiant i'r dyfodol.
- Awgrym i gynnwys adborth / diweddariad o sesiynau hyfforddi a fynychwyd fel eitem ar raglen y Bwrdd pan fydd yr angen yn codi

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhaglenni hyfforddi, amlygwyd bod Pwl Pensiwn Cymru yn cynnig rhaglen hyfforddiant ynghyd a webinarau gan gwmnïau perthnasol. Ategwyd bod y Rheoleiddiwr Pensiwn hefyd yn cynnig cyrsiau ar lein ac y byddai modd cyfeirio'r wybodaeth yma i'r Aelodau yn fisol

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 9. CYFLWYNO CYLLIDEB UNED GWEINYDDU PENSIYNAU AC UNED BUDDSODDI 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu cyllideb ar gyfer y

flwyddyn ariannol 2021–2022, ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

Amlygwyd mai 2019/2020 oedd y tro cyntaf i'r gyllideb ar gyfer yr Unedau gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau am gymeradwyaeth a bod bwriad erbyn hyn i gyflwyno'r wybodaeth yn flynyddol. Addaswyd cyllideb 2019 /20 yn unol ag addasiadau i strwythur staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi - man addasiadau yn unig oedd i gyllideb 2021/22 gyda chyllidebau sylfaenol yn parhau'r un fath.

Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau wedi cymeradwyo'r gyllideb 21/01/2021

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 10. AMCANION YMGYNGHORWYR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd i'r ymgynghorwyr buddsoddi ynghyd a manylion amcanion ar

gyfer 2020/21. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Cyfeiriwyd at yr amcanion cyfredol ynghyd a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2020. Amlygwyd bod yr amcanion wedi bod yn weithredol ers Rhagfyr 2019, a bod datganiad cydymffurfio ar gyfer 2020 wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol (7fed o Ionawr 2021).

Adroddwyd bod Hymans yn cyflawni gwaith da, yn darparu adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y paneli buddsoddi, yn cynnig cyngor ymarferol, ymatebion a gohebiaeth amserol ac yn perfformio yn unol â'r amcanion.

Mewn ymateb i gais am eglurhad dros y gwahaniaeth rhwng amcan 5 ac amcan 6, amlygwyd bod amcan 5 yn cyfeirio at yr amser mae'n cymryd i ddatblygu polisïau addas gyda Hymans yn chwarae rôl ddefnyddiol iawn o lunio a datblygu polisïau yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor. Ategwyd mai bwriad amcan 6 yw sicrhau bod y gwaith yn adlewyrchu gofynion y polisi

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

## 11. BUDDSODDI CYFRIFOL A BUDDSODDIADAU CARBON ISEL

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau'r Gronfa yn y meysydd buddsoddi cyfrifol a buddsoddiadau carbon isel ynghyd a chyflwyno datganiad drafft sydd yn darparu safbwynt y Gronfa o ddad-fuddsoddiadau o danwydd ffosil.

Adroddwyd bod buddsoddiadau carbon isel wedi ei amlygu fel maes blaenoriaeth gan y Gronfa gyda nifer o ddatblygiadau wedi eu gweithredu o ganlyniad i gydweithio da rhwng y Pwyllgor, Y Bwrdd, Rheolwyr ac Ymgynghorwyr. Ategwyd bod y rheolwyr asedau wedi ymgysylltu gyda chwmnïau o ran eu cynlluniau ar gyfer dyfodol carbon isel gyda'r Gronfa Bensiwn wedi dwyn pwysau ar gwmnïau i gynyddu ymdrechion yn y maes pwysig hwn.

Y bwriad yw cyhoeddi'r datganiad gan dynnu sylw cyhoeddus at yr holl weithredoedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y datblygiadau yn gadarnhaol a chalonogol
- Bod y ddogfen yn un ddefnyddiol - braf gweld y wybodaeth ar ddu a gwyn

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd a chynnwys y datganiad drafft. Llofnododd y Cadeirydd y datganiad.**

## 12. RHEOLIADAU TALIADAU YMADAEL Y SECTOR CYHOEDDUS 2020

Ers cyhoeddi'r rhaglen, cafwyd datganiad gan y Llywodraeth (12/02/21) yn diddymu'r rheoliadau cap talu ymadael o £95k, ac felly ni chafwyd trafodaeth ar y mater. Awgrymwyd y byddai'n debygol y bydd addasiadau neu gynigion i'r rheoliadau yn cael eu cyflwyno i'r dyfodol ac y byddai'r argymhellion hynny yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r Bwrdd.

## 13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2020

Cyflwynwyd arolwg gan y Rheolydd Pensiynau i dderbyn adborth y Bwrdd am drefniadau llywodraethu Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 12 Chwefror 2021, ond ymestynnwyd y terfyn amser gan y Rheolydd er mwyn derbyn mewnbwn y Bwrdd yn y cyfarfod hwn.

Cwblhawyd yr arolwg yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- A10 - cynllun olyniaeth Aelodaeth y Bwrdd - nodwyd nad oedd 'cyfnod' penodol wedi ei osod ond bod bwriad adolygu'r Aelodaeth yn Mai 2022. Amlygwyd y bydd proses penodi ffurfiol yn cael ei dilyn gyda hysbyseb yn cael ei rhyddhau am enwebiadau newydd ynghyd a chyfle i'r aelodau cyfredol ail gynnig am aelodaeth.
- Bod Ateb A3 a B5.7 yn gwrth-ddweud ei gilydd - angen adolygu'r ateb o dan B5.16 'arall'
- Bod angen diweddariad ar ddiogelwch cyber (rhan D) – cadarnhawyd bod 'risg cyber' wedi ei gynnwys ar y rhaglen waith ddiwygiedig (Haf 2021)
- Bod rhan I, J a K yn ychwanegiadau newydd ac yn fodd o osod ffocws ar gyfer yr hyn sydd angen ei weithredu

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

**CADEIRYDD**